# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/Rheoli Achosion a Phontio |
| **SWYDD:** | Cynghorydd Personol - 16+ |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR08 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

O dan oruchwyliaeth Uwch-ymarferydd/Rheolwr y Tîm, cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a'r rhai sydd eisoes yn byw'n annibynnol yn y gymuned ar ôl gadael gofal. Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl ifanc a'u galluogi i bontio'n llwyddiannus i oedolaeth, a'u galluogi i gael mynediad i wasanaethau priodol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynnig cymorth uniongyrchol i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol, a'u cynorthwyo â materion llety, incwm, iechyd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a meysydd allweddol eraill sy'n ymwneud â'u pontio. Cynnal cyswllt rheolaidd â phobl ifanc a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amlder cyswllt a ddisgwylir a'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.
- Eirioli ar ran pobl ifanc gydag asiantaethau mewnol ac allanol eraill a'u cynorthwyo wrth ddatblygu eu gallu eu hunain i drafod ag asiantaethau, ac eraill yn eu cymuned.
- Cynorthwyo pobl ifanc wrth gynnal perthnasoedd â'u teulu a phobl berthnasol eraill a chynyddu eu gallu i ddeall natur perthnasoedd. Helpu pobl ifanc i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u cyfoedion ac oedolion a chyfrannu at y gymuned lle maent yn byw. Eu galluogi i gaffael sgiliau byw ymarferol digonol. Goruchwylio a darparu cyswllt dan oruchwyliaeth lle y bo angen rhwng pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Sicrhau bod cynlluniau i bobl ifanc yn cael eu hadolygu'n annibynnol ac ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig, yn rheolaidd ac yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol y person ifanc gan sicrhau bod manylion y cynlluniau yn cael eu gweithredu a bod partïon eraill sy'n rhan o'r cynllun yn cynnig cymorth y cytunwyd arno. Ymgymryd â thasgau perthnasol, dirprwyedig gan y gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd i gynorthwyo pobl ifanc.
- Rheoli achosion yn annibynnol ac fel y cyfarwyddir gan weithwyr cymdeithasol, os oes angen, i sicrhau bod asesiad priodol o angen wedi'i gynnal a datblygu a gweithredu cynlluniau i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Cyfrannu at gynlluniau ac adolygiadau llwybrau.

- Gweithio gydag asiantaethau trydydd sector yn yr ardal a chymryd rhan mewn fforymau rhyngasiantaeth perthnasol.
- Cynorthwyo yn y gwaith parhaus i fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc a chyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth. Ceisio barn pobl ifanc ar y gwasanaeth a gynigir a chynrychioli eu barn i'r awdurdod.
- Gwneud gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc, gan gynnwys rhieni ifanc a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- Cynnal cofnod wedi'i ddiweddaru ar y ffeiliau electronig, a dogfennau perthnasol fel sy'n ofynnol gan y gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd i gyrraedd safonau da ar gyfer arfer.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Cynghorydd Personol – 16+

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghyd â: Craidd a City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant) neu gymhwyster blaenorol NEU<br>• Dystiolaeth o astudio i Safon Uwch/Diploma Lefel 4.<br>• Yn barod i ymgymryd â Chymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol ar lefel 4.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Gwybodaeth am gyfrifoldebau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.<br>• Profiad o weithio mewn sefydliad y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys gofalu am blant.<br>• Profiad o wneud gwaith uniongyrchol gyda Phlant a Phobl Ifanc, yn enwedig y rhai rhwng 16 a 25 oed. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau’n briodol ac yn gymwys gyda chefnogaeth y rheolwr tîm.<br>• Gallu dangos dealltwriaeth o anghenion amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau a sensitifrwydd i hyn.<br>• Gallu cyfathrebu’n glir ac yn effeithiol, ac yn gallu cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar a thrwy ddefnyddio TG.<br>• Uniondeb personol a phroffesiynol. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol Parhad** | • Gallu gweithio'n hyblyg, yn rhagweithiol ac fel rhan o dîm ac ar draws asiantaethau amlddisgyblaethol.<br>• Gallu blaenoriaethu'ch gwaith eich hun a chymryd cyfrifoldeb dros reoli llwyth gwaith a pherfformiad.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a phobl effeithiol ac yn gallu rheoli a datrys anghydfod mewn ffordd gadarnhaol.<br>• Ymroddiad amlwg i gydraddoldeb ac arfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb yn arfer a chynllunio cefnogaeth.<br>• Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |